Celfyddyd Ddeinamig a Chynnal Cymuned

tuag at egwyddorion ar gyfer gweithredu diwylliannol priodol o fewn cymunedau Cymraeg

Gareth Ioan

1.0 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn ganlyniad i nifer o drafodaethau a gafwyd o fewn Y Ffwrwm dros gyfnod o ryw 18 mis yn ystod y blynyddoedd 2000 a 2001. Yn hynny o beth mae'r awdur mewn dyled i bawb o aelodau'r Ffwrwm a gyfrannodd i'r drafodaeth honno ac yn arbennig i'r canlynol am gyfrannu syniadau a deunydd allweddol i'r broses a'r ddogfen hon: Margrat Ames, Llinos Dafis, Marian Delyth, Euros Lewis a'r diweddar Cliff Mc Lucas.

Bwriad y ddogfen hon yw gosod mewn du a gwyn yr hyn a gredwn ni, fel aelodau'r Ffwrwm, sy'n bwysig ac yn arwyddocaol o ran swyddogaeth y celfyddydau fel cyfrwng i gyfrannu at atgynhyrchu diwylliannol o fewn ein cymunedau yng ngorllewin Cymru. Yn rhan o hynny mae ein consýrn canolog ynglþn â sicrhau parhad i atgynhyrchu diwylliannol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r cymunedau Cymraeg yr ydym ni'n rhan ohonyn nhw, fel llawer cymuned arall, yn wynebu nifer o gyfleoedd a bygythiadau ar hyn o bryd. Ceisio darganfod ffyrdd cadarnhaol ac ystyrlon i ymateb i'r cyfleoedd a'r bygythiadau hynny sydd wedi tynnu aelodau'r Ffwrwm at ei gilydd. Ein bwriad yw ceisio rhoi trefn ar feddyliau, syniadau, dulliau ac arferion a ddatblygwyd o fewn cyd-destunau celfyddydol amrywiol dros gyfnod o amser - yn unigol ac ar y cyd - a cheisio rhoi mynegiant ystyrlon a deallus iddyn nhw fel arweiniad ymarferol i'n hunain ac i eraill.

Cyn dechrau ceisio gwneud hynny credaf y byddai'n ddefnyddiol i ni nodi ambell un o'r ffactorau cyd-destunol hynny sydd wedi bod yn gefndir ac yn ysgogiad i'r trafod.

1.1 Y Gymru newydd

Mae Cymru yn newid. Mae'n cael ei hail-greu - unwaith eto.

Yn 1985 gofynnodd y diweddar Athro Gwyn Alf Williams y cwestiwn deifiol*, "When was Wales?"*, gan olrhain hanes y gweddnewidiadau a fu yn y gymdeithas Gymreig dros fileniwm a hanner.

> *"The Welsh as a people have lived by making and remaking themselves in generation after generation, usually against the odds, usually in a British context. Wales is an artefact that the Welsh produce."*[1]

Gyda dyfodiad y Cynulliad Cenedlaethol daeth cyfleoedd newydd, amryfal a chynyddol i drin a thrafod yr hyn yw Cymru a Chymreictod. Mae Cymru ei hun bellach ar frig yr agenda cenedlaethol. Daeth cyfle, unwaith yn rhagor, i greu hunaniaeth genedlaethol o'r newydd. Ym mhob maes o fywyd, o ganlyniad, mae yna ailystyried. Yn drefniadaethol mae yna ailystyried strwythurau a fframweithiau, ar lefel polisi mae yna ailystyried anghenion a blaenoriaethau ond, yn fwy arwyddocaol efallai, mae yna hefyd ailystyried agweddau, dyheadau a gwerthoedd. Dydy hynny yn ei hun yn ddim byd newydd efallai ond yr hyn sydd yn newydd yw mai'r cyd-destun cysyniadol bellach yw Cymru.

Pryd fu Cymru? Pwy yw Cymru? A fu Cymru? Yn ddiweddar, mae rhai wedi dadlau mae dim ond yn awr, o ganlyniad i ddatganoli, a hynny am y tro cyntaf, y gallwn sôn am Gymru fel endid unedol go iawn. Ond beth bynnag fo'ch diffiniad o Gymru rhaid derbyn mai cynnyrch cymdeithasol ydyw; cynnyrch proses greadigol - y broses greadigol o greu cenedl.

1.2 Cyfalafiaeth, neo-ryddfrydiaeth a bydeangoli

Mae yna gyd-destun ehangach i'w ystyried hefyd, wrth gwrs. Ni allwn anwybyddu y tueddiadau cymdeithasol a gwleidyddol Prydeinig, Ewropeaidd a byd-eang sy'n effeithio ar y Gymru newydd hon sydd yn yr arfaeth. Un o'r tueddiadau hynny yw'r modd y mae tensiynau rhwng y canol a'r lleol wedi eu hamlygu fwyfwy o fewn gwleidyddiaeth Prydain ac Ewrop, a hynny yn rhannol yn sgil goruchafiaeth wleidyddol cyfalafiaeth *laissez-faire* llywodraethau neo-ryddfrydol Thatcher, Major a Blair dros ideolegau asgell chwith dros y chwarter canrif ddiwethaf.

Nid y frwydr chwith-dde draddodiadol yw ffocws y frwydr wleidyddol bellach. Yn hytrach, mae tensiynau o amgylch grym a diffyg grym i'w gweld yn gliriach yn y tensiwn cynyddol rhwng canoli a datganoli, rhwng y wladwriaeth ganolog a'r gymuned leol, ac yn gynyddol, rhwng cyfalaf rhyngwladol a'r unigolyn. Mae'r duedd tuag at fydeangoli cyfalaf a'r masnacheiddio a fu ar gyfryngau diwylliannol torfol yn elfennau sylfaenol eu dylanwad yn y sefyllfa wleidyddol newydd hon. Yn sgil hynny, mae yna fygythiad gwirioneddol i hunaniaeth a hyfywedd cymunedau lleol - yn enwedig, o bosibl, cymunedau gwledig. Gyda diflaniad y cymunedau yma a'u diwylliannau unigryw mae'r byd yn gynyddol ar ei golled a hynny'n golled arwyddocaol iawn. Yn eu *llyfr 'Vanishing Voices'*, sy'n gosod cadwraeth ieithyddol law yn llaw â chadwraeth amgylcheddol, dywed Daniel Nettle a Suzanne Romaine,

> *"While he loss of most of the world's languages and cultures may be survivable, the result will be a seriously reduced quality of life, if not the loss of the very meaning of life itself… Variety is not just the proverbial spice of life; it is a prerequisite for life."*[2]

Mae tueddiadau demograffaidd tuag at gynnydd parhaus mewn symudoledd pobl yn cynyddu'r bygythiadau hynny. Yng Nghymru mae i hynny arwyddocâd penodol ar gyfer hyfywedd cymunedau 'traddodiadol' Gymraeg y gogledd a'r gorllewin. Gwyddom oll am y duedd i bobl ifanc lleol Cymraeg eu hiaith i adael y cymunedau Cymraeg hynny, gyda mewnfudwyr hþn Saesneg eu hiaith yn dueddol o gymryd eu lle. Mae hynny yn ei dro, ynghyd â gwendid sylfaenol yr economi lleol a'r newidiadau sydd yn yr arfaeth ar gyfer yr economi amaethyddol, yn gosod cryn her i'r rhai hynny ohonom sydd am weld parhad i ddiwylliant Cymraeg cysefin.

1.3 Celfyddyd a Diwylliant

I droi at y celfyddydau, yn ystod y flwyddyn 2000 bu arolwg Pwyllgor Addysg a Diwylliant y Cynulliad i'r celfyddydau yng Nghymru yn ddechrau'r daith tuag at sefydlu cyd-destun Cymreig i'r celfyddydau. Yn hanesyddol, yn ôl arloeswyr fel Peter Lord ac eraill, fe wadwyd i Gymru ei hetifeddiaeth gelfyddydol, tu hwnt i'r cyd-destunau gwerinol ac eisteddfodol. Nid roddwyd gwerth ar gelfyddyd Gymreig. Fe'i hystyrid yn blwyfol a chul.

Pobl eraill oedd yn creu celfyddyd o unrhyw werth - yn sicr nid y Cymry. Roedd hynny, yn bennaf, yn ganlyniad i ymagwedd estroniaid o academyddion, swyddogion canolfannau celf, curaduron a gweision cyhoeddus eraill a fu, ac a sydd, mewn swyddi dylanwadol o fewn y pau celfyddydol yng Nghymru. Roedd hynny hefyd o ganlyniad i'r diffyg hyder cynhenid sydd yn magu o fewn cymunedau sydd wedi eu gwladychu. Mae arolwg y Cynulliad wedi rhoi ysgwydd arall tu ôl i'r ymdrech i droi'r drol honno.

Un o themâu gwaelodol arolwg y Cynulliad oedd yr ymdrech i ddechrau edrych ar ddiffiniadau o gelfyddyd a diwylliant a'r berthynas rhyngddynt mewn cyd-destun cenedlaethol Cymreig. Roedd hynny yn ei hun yn arwyddocaol gan herio nifer o ddeiliaid y *status quo* i symud eu meddylfryd o gynnal ffiniau diogel y canon sefydliadol Prydeinig i ystyried yn ddwysach y cyd-destunau cymdeithasol sy'n creu celfyddyd a diwylliant yma yng Nghymru. Gellid dadlau nad oes dim pendant wedi deillio o'r arolwg hyd yma ond credwn fod oblygiadau'r Arolwg hwnnw yn dal i gynhyrchu tonnau yn y pwll celfyddydol nad ydynt eto wedi gweled glan. Hyderwn, trwy'r ddogfen hon, y medrwn ninnau daflu carreg arall i'r pwll arbennig hwnnw.

1.4 Yr Anweledig

Fel siaradwyr Cymraeg rydym yn ymwybodol iawn o'r diffyg grym sy'n medru llethu cymunedau iaith lleiafrifol. Diffyg grym sy'n deillio o sefyllfa hanesyddol lle y mae'r Gymraeg wedi ei hepgor o gymaint o beuoedd cymdeithasol dylanwadol. Ceir ei amlygu trwy arferion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol sy'n nodweddiadol o grŏp dan ormes, er enghraifft - diffyg hyder, diffyg mentergarwch a diffyg cyfranogaeth wleidyddol. Mae'r gwaith a wnaed gan gyrff megis Menter a Busnes ac eraill yn dyst i'r sefyllfa enbyd hynny.

Yn ddiwylliannol, un ffactor yn y rhyngberthynas anghyfartal sy'n bodoli rhwng cymunedau iaith Cymru nad sydd wedi derbyn unrhyw sylw teilwng hyd yma yw anweledigrwydd siaradwyr Cymraeg. Ymddengys yn aml fod rhwydweithiau cymdeithasol a chyfryngau diwylliannol a chelfyddydol siaradwyr Cymraeg yn gwbl anweledig i lygaid unigolion a grwpiau nad sy'n siarad Cymraeg. Yn aml ceir anwybodaeth lwyr ymysg y Di-Gymraeg o'r gymdeithas gymhleth a chyfoethog y maen nhw'n byw yn ei chanol. Mae'r gymdeithas Gymraeg yn bodoli fel rhyw Annwfn anweledig o'u cwmpas ymhobman. Hyd yn oed pan ceir rhywfaint o ymwybyddiaeth, yn aml, erys y diwylliant Cymraeg iddynt yn rhyw arall fyd esoterig y tu hwnt i'w dirnadaeth.

Ymhellach na hynny, gellid dadlau bod siaradwyr Cymraeg a'u grwpiau celfyddydol i raddau helaeth hefyd yn anweledig i asiantaethau sefydliadol a gwladwriaethol. Meddylfryd a phersbectif Saesneg eu hiaith sydd gan y sefydliadau hyn gan mwyaf. Cynnyrch diwylliannol y Brydain Saesneg ydyn nhw yn eu hanfod. Maent felly, yn ogystal â methu amgyffred profiad siaradwyr Cymraeg, hefyd, o ganlyniad, yn gweithredu mewn modd sy'n ddiwylliannol amhriodol yng nghyswllt y gymuned iaith Gymraeg. Canlyniad hynny yw bod unigolion a grwpiau Cymraeg eu hiaith yn aml yn cael eu hepgor neu'n cael eu heithrio o gyfleoedd i gyfrannu at brosesau penderfynu polisi ar y naill law ac o brosesau rhannu adnoddau ar y llaw arall. Mae hynny'n tanlinellu statws israddol siaradwyr Cymraeg fel grŏp dan orthrwm sefydliadol sy'n cael eu heithrio yn aml rhag cyfrannu o fewn y gyfundrefn swyddogol.

Nid yw hyn yn newydd. Dyna ein sefyllfa hanesyddol. Ar ddechrau ei gyfrol gampus, *'The Revolt of Owain Glyn Dŵr'*, mae R. R. Davies yn ein tywys i mewn i gymhlethdodau cymdeithasol Cymru'r oesoedd canol trwy ddarlunio dwy daith drwy Gymru - taith gweinyddwr o Sais ar y naill law, o gastell i gastell, a thaith un o feirdd yr uchelwyr ar y llall, o lys i lys. Trwy'r ddyfais hon mae'n portreadu dwy olwg gwahanol iawn ar Gymru, ei hanes, ei llên a'i gwleidyddiaeth. Gwahaniaethau a fu'n sail i'r gwrthryfel. Wrth ddisgrifio'r Gymru Gymraeg dywed hyn,

> *"Such a society lay, almost by definition, beyond the ken of our casual English visitor, and even beyond the scrutiny of the local English administrative cadre."*[3]

Daliwn fod y diffyg amgyffred yma yn parhau yn ffaith hyd heddiw. Gellid nodi sawl enghraifft gyfoes o anweledigrwydd arwyddocaol ond dyma nodi dim ond un enghraifft a ddigwyddodd yn ystod cyfnod llunio'r ddogfen hon sy'n adleisio cyd-destun y dyfyniad uchod.

Yng ngwanwyn 2001 penderfynodd Cyngor Celfyddydau Cymru gynnal arolwg o'r modd yr oedden nhw'n delio ag amrywiaeth diwylliannol yng Nghymru. Roedd trefniadau'r arolwg yn eu lle a phopeth yn barod ar gyfer taith ymgynghorol genedlaethol pan atgoffwyd y Cyngor gan un o'i swyddogion fod y diwylliant Cymraeg hefyd yn rhan o'r amrywiaeth diwylliannol yma. Rhaid oedd unioni'r cam gwag a threfnu 'Cam 2' i'r ymgynghoriad er mwyn edrych ar y modd yr oedd CCC yn delio â'n diwylliant cysefin! Hyd yn oed ar ôl hynny cafwyd ar ddeall na wnaed unrhyw ymdrech fwriadus i gynnwys sefydliadau a chymdeithasau cynrychioliadol y diwylliant Cymraeg yn rhan o'r ymgynghoriad[4]. Pa syndod? Wedi'r cwbl, mae'n siŵr eu bod hwythau hefyd yn anweledig i'r gweinyddwyr o Gaerdydd ar eu taith trwy Gymru.

1.5 *Community Arts*

O fewn byd y 'Celfyddydau' mae llawer o gyfleoedd a bygythiadau eraill i'w canfod. Un agwedd ar y celfyddydau yng Nghymru sy'n peri pryder yw'r ffasiwn i hyrwyddo'r hyn a elwir yn *Community Arts*. Mae'r mudiad *Community Arts*, sydd â'i wreiddiau yn niwylliant dinesig Lloegr ac sy'n tarddu o ddatblygiadau gwleidyddol ymrymusol y chwedegau, wedi dod yn fwy a mwy amlwg yng Nghymru dros y degawd diwethaf - yn rhannol fe ymddengys yn sgil mewnfudiad nifer o artistiaid o wahanol gyfryngau i arfer eu crefft yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r mudiad yn sicr o gynyddu yn y dyfodol wrth i'r term 'cymuned' fagu ystyron gwleidyddol cynyddol arwyddocaol.

Tra'n bod yn gwbl grediniol fod yna werth canolog a hollol greiddiol i weithgareddau celfyddydol o fewn cymunedau - dyna ddiddordeb a bywoliaeth nifer helaeth o aelodau Y Ffwrwm - rydym yn amau'n gryf a oes gan nifer o'r rhai sy'n disgrifio eu hunain yn artistiaid cymunedol yng Nghymru'r wybodaeth, yr agweddau a'r sgiliau priodol i ymwneud yn effeithiol â chymunedau Cymreig a Chymraeg. Yn wir, byddwn yn mynd mor bell â honni fod nifer o'r prosiectau a'r blaengareddau sy'n cael eu hariannu gan arian cyhoeddus ac arian elusengar yng Nghymru yn dueddol o fabwysiadu ymagweddau tadogol a threfedigaethol tuag at y boblogaeth leol gan wneud dim oll i ymrymuso ac atgyfnerthu'r cymunedau hynny (un o fwriadau sylfaenol tybiedig celfyddyd gymunedol) - yn enwedig cymunedau Cymraeg.

Credwn fod gwir angen hwyluswyr celfyddydol cymunedol o fewn ein cymunedau. Mae eu potensial i gynnal a datblygu hyfywedd cymdeithasol ac economaidd cymunedau yn anferthol. Y trueni yw, yn aml, pan eu bod yno, nad ydynt bob amser yn medru, na hyd yn oed yn deisyfu, uniaethu â chyd-destun diwylliannol cysefin y cymunedau hynny. Mae tuedd i hwyluswyr y *community arts* lanio dan fantell y parasiwt diarhebol. Ac er llwyddo i ymryddhau ohono a chael dwy droed yn gadarn ar y ddaear nid oes sicrwydd hyd yn oed wedyn y llwydda i weld yr Anweledig o'i gwmpas. Mae baglu o gwmpas mewn anwybodaeth yn weithgaredd peryglus i bawb! Gall gweithredu anwybodus a diwreiddiau o'r fath fod yn ddinistriol. Mae'n hanfodol ein bod yn ceisio sicrhau rhwydwaith o hwyluswyr celfyddydol sy'n adnabod y pridd y maen nhw'n ceisio hau eu hadau ynddo.

Bwriad y ddogfen hon yw ceisio amlinellu rhai o'r cysyniadau a'r gwerthoedd sylfaenol hynny y credwn sydd angen i weithwyr celfyddydol o fewn y gymuned eu harddel a'u harfer os yw eu gwaith i fod yn berthnasol, yn greadigol ac yn effeithiol.

2.0 Diwylliant, iaith, celfyddyd a chymuned

Mae cryn ddryswch yn medru codi yn aml wrth drafod diwylliant a chelfyddyd, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Pan yn trafod hynny mewn cyd-destun dwyieithog ac o fewn dau ddiwylliant cyfochrog mae'r dryswch yn medru bod cymaint â hynny yn fwy. Gwell fyddai, felly, i ni ddiffinio rhywfaint ar yr hyn a olygwn wrth y termau hyn.

2.1 Diwylliant

Daliwn mai diwylliant yw'r enw cyfansawdd ar y moddau mae grŵp penodol o bobl (cymuned) yn gwneud synnwyr o'u profiadau cyffredin, yn cytuno ar ystyron, yn tadogi arwyddocâd ac yn mynegi'r dehongliadau hynny. Mae'r ffurfiau mynegiant hynny yn cynnwys pob agwedd ar fywydau'r grŵp neu gymuned ac yn llawer ehangach na'r diffiniad celfyddydol arferol o ddiwylliant, neu c*ulture*, fel y disgrifir hynny gan y cysyniad sefydliadol Prydeinig o *Culture & the Arts* a'r cysyniad traddodiadol Gymraeg o ddiwylliant 'Y Pethe'. Nid cynnyrch celfyddydol arbennig ac nid eiddo dosbarth arbennig yn unig yw diwylliant. Mae diwylliant yn disgrifio bywyd cymdeithasol cymuned gyfan yn ei holl amrywiaeth.

Gellir disgrifio pob ffurf o gelfyddyd - barddoniaeth, dawns, arlunio, cerdd, teledu ac ati - fel cyfryngau diwylliannol. Ond yn ychwanegol at hynny mae agweddau eraill o fywyd y gymuned hefyd yn gyfryngau diwylliannol - defodau ac arferion crefyddol, crefftau, gweithgaredd economaidd, arferion hamdden, addysg a dysg, bywyd teuluol, dulliau o fagu plant, agweddau at yr henoed… Pob agwedd yn wir o fywyd cymdeithasol y grŵp.

I'r artist cymunedol neu'r hwylusydd creadigol o fewn cymuned mae derbyn y diffiniad cymdeithasegol yma o ddiwylliant yn gofyn am fabwysiadu ymagwedd holistaidd tuag at weithio'n gelfyddydol gyda phobl o fewn eu cymuned. Er mwyn datblygu a mynegi ystyron o fewn cyd-destun bywydau beunyddiol y cyfranogwyr rhaid medru uniaethu gyda'r diwylliant sy'n sail ac yn gynhaliaeth i'w bywydau, yn ei holl gymhlethdod - yn economaidd, yn gymdeithasol, yn ddeallusol, yn ysbrydol ac yn emosiynol.

Darlunnir yr ymagwedd holistaidd yma tuag at weithredu diwylliannol yn syml ac yn effeithiol gan y gofeb i Simon Davies, Greengrove, sy'n sefyll ar lawnt Theatr Felin-fach. Simon Davies oedd perchennog a rhoddwr y tir lle y saif heddiw yr adeiladau diwydiannol, diwylliannol ac addysgol hynny sydd ar gampws y Theatr. Mae'r gofeb, a grëwyd gan David Jones ac aelodau'r gymuned leol yn Nyffryn Aeron, yn darlunio llifeiriant yn arllwys o *churn* laeth, rhaeadr o lyfrau a masgiau comedi a thrasiedi'r theatr yn gylch o amgylch fflam oleuedig y traddodiad Undodaidd lleol. Yn Theatr Felin-fach nid oes ystyr i un agwedd unigol o'r bywyd diwylliannol heb gyd-destun cyfannol y lleill. Mae'r cyfan yn rhan annatod o gylch bywyd y gymuned - bywyd yn ei gyfanrwydd.

Ond er ymwrthod â'r diffiniad Cymraeg cyffredin o ddiwylliant fel ffurfiau celfyddydol yn unig, rhaid nodi ein bod hefyd yn awyddus i arddel un cysyniad sydd ymhlyg yn y term Cymraeg. Nid damwain yw hi fod fflam yr Oes Oleuedig yn ganolog i'r gofeb yn Theatr Felin-fach, gan ein bod yn dal fod yna gynnwys moesol i ddiwylliant yn ogystal. Hanfod gweithgareddau diwylliannol yw bod iddyn nhw botensial i ddyrchafu dyn uwchlaw ei amgylchiadau i ofyn a cheisio ateb y cwestiynau sylfaenol ynglŷn â'i fod. Mae'r cysyniad Cymraeg o 'ddiwylltio', felly, yn un hanfodol. Cysyniad sy'n cyfuno'r mynegiannol gyda'r ffurfiannol - cysyniad sy'n troi ystyr yn weithred.

Mae yna swyddogaeth ganolog i gelfyddyd felly fel modd ffurfiannol a modd mynegiannol i ddiwylliant cymuned, a hynny ar sawl lefel. Yn yr un modd, mae yna swyddogaeth yr un mor arwyddocaol gan iaith gysefin y gymuned honno. Deillia arwyddocâd cymdeithasol y ddwy elfen o'u swyddogaeth ymarferol fel cyfryngau i unigolion a grwpiau gyfathrebu â'i gilydd, ond yn groes i rai honiadau diweddar gan rhai a ddylai wybod yn well, nid cyfrwng cyfathrebu yn unig mo iaith rhagor na chelfyddyd.

2.2 Arwyddocâd iaith

Efallai mai iaith yn anad dim arall yw'r prif gyfrwng cyfathrebu i'r rhan fwyaf o bobl o fewn cymuned benodol. Serch hynny, cyn cyffredinoli, rhaid cofio nad pawb o fewn cymuned sy'n medru defnyddio na deall iaith. Mae mwy i gyfathrebu nag iaith yn unig. Cyn ymhelaethu ar arwyddocâd iaith, mae'n bwysig cofio bod cyfryngau eraill megis dulliau cyfathrebu dilafar, symbolau, ystumiau ac ati yr un mor arwyddocaol eu hystyr ac yn rhan sylfaenol o'r modd y mae pobl yn ymddwyn yn ddiwylliannol at ei gilydd.

Ystyriwch beth sy'n gwneud portreadau Aneurin Jones mor boblogaidd ymysg siaradwyr Cymraeg y Gymru wledig. Byddai rhai'n dadlau mai sentiment a hiraeth sy'n gyfrifol am hynny, ynghyd â chynefindra ac apêl y cyfarwydd efallai, ond mae'r emosiynau hynny yn cael eu costreli mewn ieithwedd corff ac ystum sy'n dweud cyfrolau am fywydau a phrofiadau ei gymeriadau. Yn y cyd-destun hynny mae'n werth nodi, ar un lefel, mai ffurf ar ymddygiad cymdeithasol yw iaith hefyd a bod gan bob cymuned iaith ddilafar benodol yn ogystal ag iaith lafar, gyda'r ddwy iaith fel ei gilydd yn deillio'n uniongyrchol o brofiadau bywyd y gymuned honno. Down yn ôl at y cysyniad o iaith fel ymddygiad cymdeithasol yn y man.

Yn ogystal â'r ymddygiadol mae i iaith swyddogaeth gysyniadol o fewn cymuned hefyd a honno'n swyddogaeth gwbl greiddiol i fywyd a natur y gymuned. Yn ôl nifer o gymdeithasegwyr iaith, ar sail gwaith a sbardunwyd gan yr ieithegwyr Edward Sapir a B L Whorf ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, iaith yw'r cyfrwng blaenaf y mae cymuned

benodol yn ei ddefnyddio i ganfod, diffinio a dehongli'r byd o'i gwmpas. Dywed Benjamin Whorf,

> *"We experience life as a kaleidoscopic flux of impressions which we organise in our minds by means of language. We cut nature up, we ascribe meaning and appoint significance as we do largely because we are party to an agreement to do so. An agreement that holds throughout our speech community."*[5]

Mae Whorf, fel ieithegwyr a chymdeithasegwyr eraill o'r ysgol gymharol ar ei ôl, yn coleddu'r farn mai iaith sy'n creu realiti, ein hiaith i bob pwrpas sy'n creu ein byd. Mae'r modd y mae unigolion yn canfod y byd o'u cwmpas yn cael ei bennu yn rhannol gan yr iaith y maen nhw'n ei siarad. Mae eraill yn fwy diweddar, fel Nettle a Romaine, yn dechrau sôn am ecolegau iaith gan bwysleisio'r farn fod ieithoedd penodol yn gynnyrch daearyddiaeth, amgylchedd a hanes unigryw y cymunedau iaith hynny. Mae'n siŵr fod y ddau safbwynt yn ddilys ac mai perthynas ddwy ffordd sydd yna rhwng amgylchfyd cymuned iaith a'r iaith y mae'n ei siarad. Perthynas o ddiffinio ac ailddiffinio parhaus, sy'n rhan greiddiol o ymateb y gymuned iaith honno i'w hamgylchiadau cymdeithasol newidiol. Yn wir dywed J R Jones mai dyma'n union y dylanwadau ffurfiannol hanfodol sy'n llunio pobl yn endid diwylliannol;

> *"Eithr oblegid yr iaith yr ydym yn Bobl. Yng nghroth ei chydymdreiddiad oesol hi â thir Cymru y'n lluniwyd ni".*[6]

Un o'r camganfyddiadau a wneir yn aml gan bobl uniaith yw bod pawb yn gweld y byd yn yr un ffordd - yr un ffordd â hwythau, wrth gwrs. Yr unig wahaniaeth rhwng cymunedau iaith, yn ôl rhai, yw eu bod nhw'n defnyddio geiriau eraill, geiriau sy'n swnio'n wahanol ond sydd i bob pwrpas yn cyfleu'r un ystyron a geiriau eu hiaith nhw. Dyma Fyth y Realiti Cyffredin (Universal Reality). Mae pawb yn gweld y byd trwy 'sbienddrych eu hiaith a'u diwylliant eu hunain. Profiad cymharol ac amrywiol iawn yw bywyd. Ceir gwahaniaethau sylfaenol mewn diffiniadau, ystyron ac arwyddocâd o ddiwylliant i ddiwylliant, o iaith i iaith, a hefyd o grŵp i grŵp o fewn yr un gymuned iaith. Mae'r byd dynol yn amrywiol oherwydd bod dynion yn defnyddio ieithoedd amrywiol i'w ddiffinio ac yn defnyddio iaith mewn amrywiol ffyrdd i'w fynegi. Dywed Nettle a Romaine,

> *"Linguistic diversity gives us unique perspectives into the mind because it reveals the many creative ways in which humans organise and categorize their experience"*[7]*.*

Cyfrwng torfol yw iaith, cyfrwng i rannu a chytuno ar syniadau gydag eraill o fewn y gymuned iaith - syniadau sy'n costreli profiadau arwyddocaol y gymuned iaith honno. Mae'n dilyn felly fod grwpiau sy'n rhannu'r un iaith hefyd yn rhannu'r un diwylliant a bod iaith yn llawer mwy na chyfrwng cyfathrebu yn unig. Fel y dywedodd Dafis a Siencyn yn eu deunydd ymwybyddiaeth iaith arloesol, 'O'r Crud i'r Bedd',

> *"Language is the means by which history, mythology and customs are transmitted from one generation to another. Interests are shared, opinions and attitudes are formulated and expressed. This is all part of he process of forming the collective, communal consciousness which is sometimes called culture. Members of the same cultural group speak the same language - both the verbal and the non-verbal language".*[8]

Mae iaith felly yn gyfrwng cyfathrebu, yn gostrel i ystyron arwyddocaol, yn fodd ffurfiannol a mynegiannol i ddiwylliant. Oherwydd hyn oll mae hefyd yn fynegiant o hunaniaeth bersonol, gymunedol a chenedlaethol.

Yn y llyfr *'Discovering Welshness*' mae John Barnie yn disgrifio'r profiad o ddysgu Daneg ar ôl symud i Ddenmarc i weithio. Meddai,

> *"I had not realised before that what you are is partly formed by what you speak. Using another language changes the 'I' that is being expressed".*[9]

Mae iaith, yn ôl Barnie, yn gwbl greiddiol i hunaniaeth yr unigolyn. Mae Nettle a Romaine hefyd yn defnyddio'r cymal, *"You are what you speak"*, ac mae nifer o seicolegwyr wedi tystio i'r berthynas greiddiol rhwng iaith a bywyd y meddwl. O ganlyniad, mae'r iaith a ddefnyddir gan ymarferwyr celfyddydol yn y gymuned yn gwbl greiddiol i'r berthynas fydd yn cael ei sefydlu â'r cyfranogwyr yn eu gwaith yn ogystal â'r cynnyrch celfyddydol a diwylliannol fydd yn cael ei greu o ganlyniad i'r berthynas greadigol honno.

Ymhellach na hynny, fodd bynnag, mae'n bwysig peidio gweld iaith fel gwrthrych abstract afreal. Siaredir hyd at syrffed yng Nghymru am 'Yr Iaith', fel pe bai'n endid gwrthrychol ar ei phen ei hun. Rhaid i weithredwyr diwylliannol cymunedol o bob math ystyried iaith yn nhermau ymddygiad pobl at ei gilydd, fel agwedd hynod arwyddocaol o ymddygiad dynol. Hynny ydy, rhaid yw gweld iaith yn ffactor cwbl allweddol yn y modd y mae pobl yn ymwneud â'i gilydd, yn cyd-berthnasu â'i gilydd ar lefel bersonol a chymdeithasol.

Ydy, mae iaith yn gostrel i draddodiadau, llenyddiaeth, chwedlau, caneuon a phob math o gynnyrch celfyddydol gwerthfawr dros y cenedlaethau ond yn bwysicach o lawer mae iaith hefyd yn allwedd i rwydweithiau a chymunedau o bobl. Os ydych am weithredu'n ddiwylliannol greadigol gydag unigolion a grwpiau o fewn cymuned, os ydych am eu cynnwys, eu hymrymuso a'u cyfoethogi mae'n rhaid i chi wrth eu hiaith er mwyn cael mynediad i'w byd, a hynny ar bob lefel. Dyna i raddau helaeth y man cychwyn.

Rhaid gwneud yr anweledig yn weledig. Rhaid i ni siarad llai am yr iaith Gymraeg a sôn mwyfwy am anghenion siaradwyr Cymraeg fel grŵp o bobl sydd unwaith eto yn ceisio goroesi yn erbyn yr elfennau.

2.3 Y Celfyddydau

Mae cyswllt uniongyrchol rhwng nifer o'r syniadau uchod am natur a swyddogaeth iaith a syniadau ynglŷn â natur a swyddogaeth celfyddyd. Mae'r cyswllt rhwng syniadau ieithyddiaeth gymharol a'r hyn sydd gan Iwan Bala i'w ddweud am gelfyddyd weledol yn amlwg,

> *"Nid rhywbeth difywyd yw celfyddyd ond storfa o wybodaeth a chysylltiadau a syniadau. Mae'n dilyn felly bod yn rhaid i gasgliad o gelfyddyd a syniadau yng Nghymru fod yn berthnasol i Gymru a'i phobl ac nid yn gopi o gasgliad rhywun arall, oherwydd ar ddiwedd y dydd, a rhaid i'r gwleidyddion ddeall hyn, mae celfyddyd yn ddrych o enaid cenedl".*

Ymateb oedd Iwan Bala, yn farddonol iawn, i'r syniad a gyflwynir gan Malraux yn ei gyfrol *Picasso's Mask* o Amgueddfa heb Furiau, sef y modd y mae pawb, os nad yn casglu gwaith celf, yn casglu delweddau a phrofiadau a syniadau ar ein taith trwy fywyd.

> *"Yn ei hanfod lle yn y meddwl yw amgueddfa heb furiau. Nid ni sy'n byw yn y lle, y lle sy'n byw ynom ni".*[10]

A dyna ni unwaith eto yn ôl gyda'r berthynas rhwng profi, canfod a chreu ein realiti ein hunain. Ni all celfyddyd mwy nac iaith gael ei greu mewn gwagle. Mae'n gynnyrch unigolyn neu grŵp o bobl sy'n ymateb i'w hamgylchiadau cymdeithasol. Mae angen celfyddyd ar bob cymuned o bobl sy'n gyfrwng i ddweud 'ein stori ni' - gwaith sydd â chof a neges a gweledigaeth arbennig o ganlyniad i'r profiadau unigol a thorfol a gyfrannodd at ei greu. Rhaid inni hyrwyddo cyfleoedd i greu celfyddyd sy'n berthnasol i brofiadau pobl o fewn y cyd-destun hynny. Celfyddyd holistaidd sy'n rhoi mynegiant i fywyd cymuned yn ei gyflawnder.

Nid plwyfoldeb yw hunanfynegiant o'r fath. Dyna un o'r cyhuddiadau mae gwladychwyr yn eu taflu at y rhai a wladychwyd dros y canrifoedd. Rhaid meithrin hyder yn ein mynegiant celfyddydol ein hunain a'i weld yn gyfraniad unigryw y medrwn ni ei gynnig ar ein telerau ein hunain er cyfoethogi amrywiaeth profiad dynol ryw. Gall rhai ffurfiau celfyddydol siarad y tu hwnt i ffiniau iaith a chyfleu a rhannu gwirioneddau penodol ynghyd â'r pethau oesol hynny sy'n gyffredin i'r cyflwr dynol i gymunedau iaith a diwylliannau eraill. Sonia Iwan Bala am yr angen i ddatblygu Celfyddyd Warchodol sy'n parchu'r profiad cenedlaethol tra ar yr un pryd yn ceisio darganfod moddau mynegiant newydd. Tra'n gwarchod 'Cof y Llwyth' ar y naill law drwy ddatblygu Celfyddyd Warchodol, rhaid hefyd defnyddio'r un gelfyddyd yn sail i'n hymwneud â diwylliannau eraill. Hynny ydy, rhaid dechrau darganfod ffyrdd o gyd-berthnasu â'r byd mawr a hynny ar ein telerau diwylliannol ni ein hunain.

Tuedd hanesyddol sefydliadau celfyddydol yng Nghymru fu dilyn yn slafaidd batrymau a dyheadau sefydliad celf Lloegr. Roedd hi'n anhygoel i lawer fod Eva Ropeck yn ddiweddar yn falch iawn o fedru disgrifio Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, fel *'mini Barbican'*, fel petai canolfan gelfyddydol yng nghanol y Gymru wledig Gymraeg i fod i efelychu canolfan ddinesig yng nghanol Llundain fel mater o drefn. Eto, yn yr un modd, wrth ymgynghori ar strategaeth ddrama newydd i Gymru yn 1999 cyfeiriodd Cyngor y Celfyddydau yn ei ddogfennau ymgynghorol at y delfryd o greu theatr genedlaethol i Gymru a allai gystadlu ar yr un lefel â'r National Theatr yn Llundain.[11] Ai dyna'r nod? Neu a ddylid ymdrechu i greu trefn ar theatr Gymreig a fydd yn ateb gofynion Cymru o ran mynegiant a chyfranogaeth ac yn adlewyrchu patrymau cymdeithasol cysefin ei chymunedau? Bydd yn ddifyr gweld pa lwybr y bydd y Theatr Genedlaethol Gymraeg newydd yn ei chymryd.

Un o sloganau'r ymagwedd sefydliadol at gelfyddyd a grisialir yn y term Saesneg *Culture & the Arts* yw'r cymal rhwydd, *'Art for art's sake'*. Fel petai celfyddyd, fel iaith, yn medru bodoli o'i ran ei hun y tu allan i'w darddle, y tu allan i gymdeithas. Fel nodwyd eisoes, ni all celfyddyd, mwy nag iaith, fodoli mewn gwagle. Gweithgaredd diwylliannol ydyw sydd yn ein galluogi i ddelio â'n bywydau ac i ddelio â'r cyd-destunau economaidd a gwleidyddol sy'n effeithio ar ein bywydau.

Unwaith eto, fel ymarferwyr cymunedol, rhaid holi sut mae'r broses o greu celfyddyd, felly, yn mynd i ymrymuso ein cymunedau? Cymunedau a lethwyd gan ganrifoedd o

ddiffyg grym economaidd a gwleidyddol. Yn *The Aesthetics of Relevance* mae Peter Lord yn mynd i'r afael â'r diffyg grym hynny sydd wedi bod yn nodwedd lesteiriol o fod yn Gymro, yn enwedig Cymro Cymraeg efallai, o fewn y Brydain wladwriaethol Saesneg.

> *"Our lack of confidence disables us from taking our own product as seriously as we take the product of other cultures, both as makers and consumers. The visual image is an essential medium for the national identity: the denial of the aethetics of one is the denial of the politics of the other".*[12]

Mae creu celfyddyd, felly, fel anadlu, yn weithred wleidyddol.

2.4 Y Gymuned

Os mai pobl yn eu cymuned yw cyd-destun ein gwaith, rhaid hefyd holi beth a phwy yw'r gymuned yma sydd mor bwysig i ni?

Yn hanesyddol, oherwydd diffyg symudoledd, mae pobl wedi ymwneud â'i gilydd yn bennaf o fewn eu cyfyngiadau daearyddol, gyda phobl yn rhannu profiadau byw ar yr un darn o dir, yn yr un hinsawdd a dan yr un ffactorau daearyddol ac economaidd cyffredin. Cymunedau daearyddol, yn bennaf, fu'r drefn arferol ar hyd yr oesau. Fodd bynnag, gyda thwf symudoledd, newidiadau mewn arferion gwaith a'r cynnydd mewn mynediad i gyfryngau cyfathrebu mae cymunedau daearyddol gorllewin Cymru yn llai unffurf a sefydlog heddiw nac ar unrhyw adeg yn y gorffennol.

Mae'n hysbys ddigon bod cymunedau gwledig gorllewin Cymru yn wynebu cyfnod o newid demograffaidd sylfaenol iawn a hynny ers rhyw ugain mlynedd bellach. Er enghraifft, mae un o bob tri o drigolion Ceredigion heddiw wedi eu geni y tu allan i Gymru ac er bod Ceredigion yn dal i gael ei hystyried yn un o gadarnleoedd y Gymraeg mae llai na 60% o'i phoblogaeth yn medru'r Gymraeg a llai na hynny o bosibl yn ei defnyddio'n rheolaidd.[13] Cyfeiriwyd eisoes at y ddau duedd demograffaidd pennaf sy'n achosi'r ansefydlogrwydd cymunedol yma - allfudiad o ieuenctid a mewnlifiad o bobl hþn. Mae effaith gymdeithasol y tueddiadau hyn yn rhai pellgyrhaeddol nad ydyn nhw, o bosibl, wedi eu llawn sylweddoli eto gan y boblogaeth yn gyffredinol na chan awdurdodau cyhoeddus fel ei gilydd.

Mae'r sefyllfa gyfredol yng ngorllewin Cymru wedi cael ei disgrifio gan rai carfanau o ymgyrchwyr iaith yn nhermau fod unoliaeth y cymunedau daearyddol traddodiadol wedi ei chwalu a bod dwy gymuned benodol yn byw yno, bellach, gan rannu'r un tir. Er ein bod yn dueddol i gefnogi'r dadansoddiad hynny, daliwn mai rhannol gwir yw hynny mewn gwirionedd. Rhaid yn gyntaf, herio'r ddadl sy'n portreadu gorffennol y cymunedau hyn yn nhermau hanes unffurf a chytûn. Fel pob cymuned ddynol bu gwahaniaethau a thensiynau ynglþn â grym a gwerthoedd o fewn cymunedau Cymraeg erioed. Dydyn nhw erioed wedi bod yn gymunedau unffurf. Bu gwrthdaro ynglþn â grym cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd rhwng carfanau a dosbarthiadau cymdeithasol yn nodwedd gysefin fel ym mhob cymdeithas arall. Does ond eisiau nodi gwaith Alwyn D Rees ar wahaniaethau mewn buchedd ym mhentrefi Ceredigion yn y 30au i ddeall hynny.[14]

Fodd bynnag, mae'r sefyllfa gyfredol yn arwyddocaol iawn yn ei wahaniaethau a hynny oherwydd bod yna wahaniaethau sylfaenol yn datblygu o amgylch iaith a diwylliant. Mae yna ddwy gymuned yn datblygu - dwy gymuned iaith. Mae hynny yn newid y mae'n rhaid

i weithredwyr celfyddydol o fewn y ddwy gymuned iaith ei wynebu, gan ddarganfod dulliau ac arferion sy'n gynhwysol ar y naill law ond eto sy'n sicrhau parhad a datblygiad mynegiant celfyddydol a diwylliannol Cymraeg ar y llall. Hynny efallai yw'r her ganolog i'n gwaith. Her sydd, yn ogystal, yn gorfod wynebu ffactorau economaidd a chymdeithasol sy'n milwrio yn erbyn llwyddiant pontio diwylliannol o'r fath.

Un nodwedd o'r ansefydlogrwydd cymunedol sy'n datblygu o ganlyniad i'r ffactorau cymdeithasol yma yw bod rhwydweithiau cymdeithasol sydd heb gyfyngiadau daearyddol yn dod yn ffurf amlycach ar ymwneud cymdeithasol. Mae rhwydweithiau diddordeb yn gynyddol yn datblygu nifer o'r nodweddion hynny a ystyriwyd i fod yn nodweddion y gymuned ddaearyddol - cyfrwng ar gyfer cyfathrebu, cwmnïaeth, cefnogaeth, gwaith a hamdden. Nid yw'r rhwydweithiau hynny yn gyfyngedig i ffiniau bro, sir na gwlad. Hwylusir gweithrediad a hyfywedd y rhwydweithiau hynny yn gynyddol gan dechnoleg cyfathrebu a gwybodaeth.

Serch y duedd tuag at rwydweithiau cymdeithasol tu allan i ffiniau bro daliwn fod yna werth creiddiol i'r gymuned ddaearyddol draddodiadol yng nghyd-destun perthynas pobl â'i gilydd, a'i fod, er yr amlhau ar batrymau o ymwneud cymdeithasol, yn dal yn ffurf greiddiol ar y profiad dynol. Daliwn mai cydnabyddiaeth o hynny yw'r parch at le sy'n rhan annatod o'r diwylliant Cymraeg a bod tuedd y Cymro i uniaethu ei hun â bro neu ardal fel rhan annatod o'i hunaniaeth bersonol a diwylliannol yn nodwedd sylfaenol o hynny. Onid un o'r cwestiynau cyntaf y gofyn siaradwr Cymraeg i gydnabod newydd yw, "O ble 'ych chi'n dod 'te?"! Mae'r athronydd J R Jones wedi talu sylw nodedig i'r nodwedd ddiwylliannol yma wrth sôn am arwyddocâd "cydymdreiddiad iaith a thir" fel hanfodion ffurfiannol bododlaeth Pobl:

> *" Y mae angen ar ddyn am gynefin yng ngwactod dibendrawdod Gofod; hynny yw, y mae arno angen ei leoli a'i angori mewn Gofod. A'r gofod ehangaf y medr dyn sefyll ynddo a theimlo yr un pryd ei fod yn rhan organig ohono yw 'daear' ei Bobl ei hun. Y mae mil o linynnau dirgel yn ei glymu wrthi."*

Agwedd arall i dalu sylw ato yw'r term 'cymuned' ei hun. Mae defnydd helaeth a chynyddol ar y term erbyn heddiw a daeth i olygu nifer o bethau i wahanol bobl. Yn gyffredinol, fodd bynnag, daeth i olygu unrhyw grŏp o bobl sy'n rhannu'r un nodweddion cymdeithasol - yn arferion a gwerthoedd diwylliannol. Fel arfer cyfyngir ei ddefnydd i ddisgrifio is-grwpiau cymdeithasol ar sail daearyddiaeth leol neu ar sail diddordeb. Er nad ydym eisiau herio'r diffiniad hwnnw yn wyneb defnydd poblogaidd, daliwn fod llawer o ystyron yr hyn a olygwn gan 'gymuned' i'w canfod yn y term arall hwnnw, 'cymdeithas', a ddefnyddir yn gyffredin erbyn heddiw i ddisgrifio uned gymdeithasol ehangach ar sail gwlad neu wladwriaeth.

Gogoniant y gair 'cymdeithas' yw ei fod yn cynnwys y ddelwedd gyfoethog o fywyd fel taith. Cymdeithas - yn yr ystyr o bobl yn cyd-ymdeithio, yn rhannu eu bywydau o fewn yr un gofod ac amser. Mewn cymdeithas mae'r daith yn fwy na thaith yr unigolyn. A beth yw'r daith honno? Onid y broses greadigol sylfaenol honno o ganfod ystyron o fewn y profiad dynol, o greu dehongliadau ac o rannu arwyddocâd? Hynny ydy, cyfrannu at greu diwylliant.

Wrth drafod atgynhyrchu diwylliannol mewn papur academaidd yn ddiweddar fe ddewisodd yr Athro Brian Street o Brifysgol Leeds y teitl deifiol *'Culture is a Verb'*.[15] Mae hynny'n gosod persbectif newydd efallai i rai hynny ohonom sydd wedi arfer â'r cysyniad

traddodiadol Gymraeg o ddiwylliant fel set o werthoedd ac arferion unffurf a sefydlog. Rhywbeth deinamig ac ymarferol yw diwylliant meddai. Mae e'n greadigol yn ei hanfod gan mai rhywbeth i'w greu yw e, a'i greu'n barhaus.

Term arall a ddefnyddir yn aml mewn trafodaethau gwleidyddol a diwylliannol Cymraeg yw'r gair 'etifeddiaeth'. Dyma'r hyn a drosglwyddir o genhedlaeth i genhedlaeth o fewn cymdeithas - canfyddiadau, gwybodaeth, arferion a chynnyrch celfyddydol sy'n rhoi ystyr i brofiadau'r cyd-ymdeithwyr yn eu perthynas â'u lleoliad daearyddol penodol. Efallai bod yr etifeddiaeth yn cael ei haddasu a'i hail-greu o oes i oes ond mae llinyn arian y cyd-ymdeithio yn dal.

Os ydym yn dal fod yna werth i'r gymuned ddaearyddol, fod yna werth i'r etifeddiaeth Gymraeg ac eto'n dal fod wynebu newidiadau cymdeithasol yn anorfod yn y Geredigion a'r Gymru newidiol yma - pwy, felly, yw ein cymuned?

Mae creu diwylliant a throsglwyddo etifeddiaeth yn golygu buddsoddiad ac ymroddiad. O fewn cymdeithas gynyddol luosog fel Ceredigion daliwn fod ymrwymiad i gymdeithas, cymdeithas Gymraeg Ceredigion, a pharodrwydd i fuddsoddi ynddi yn feini prawf defnyddiol, beth bynnag fo cefndir diwylliannol unigolion. Ein cymuned, felly, yn syml yw'r rhai hynny, yn siaradwyr Cymraeg neu'n Ddi-Gymraeg sy'n dewis ymuno â ni yn y daith ymholgar, y rhai hynny sydd eisiau parhau i ddirwyn y llinyn arian yn y lle arbennig hwn. Yn ei gerdd, 'Pa beth yw dyn?', mae Waldo Williams yn gofyn dau gwestiwn am y daith ymholgar yma a'r ymrwymiad i diriogaeth:

> "Beth yw adnabod? Cael un gwraidd
> Dan y canghennau…
>
> Beth yw gwladgarwch? Cadw tþ
> Mewn cwmwl tystion".[16]

Daliwn fod parch at le a gorffennol yn hanfodol mewn cymdeithas war, ond fel dywedodd Edward Said yn ei lyfr *'Culture and Imperialism'*,

> *"One is not looking for uniquely original essences, either to restore them or to set them in a place of impeachable honour".*[17]

Nid rhewi'n diwylliant nac adfer gogoniannau'r gorffennol yw'r nod. Mae cymdeithas yn newid a rhaid bod yn gwbl agored i hynny, gan gofleidio dylanwadau newydd creadigol heb golli gafael ar linyn arian ein hiaith a'n diwylliant.

3.1 Pa fath o gelfyddyd? Pa fath o ddiwylliant?

Rydym bellach wedi cyfeirio yn fras at rai o'r materion hynny sy'n llywio ein syniadau a'n harfer fel artistiaid ac ysgogwyr diwylliannol o fewn y gymuned. Ceisiwn amlinellu ymhellach rhai o'r gwerthoedd a'r egwyddorion hynny sy'n sail i'n gweledigaeth ac sy'n llywio ein harferion gwaith wrth inni weithredu'n gelfyddydol o fewn ein cymunedau.

3.1 Pa fath o weithredu celfyddydol ydym yn ei hyrwyddo?

I ddechrau, daliwn fod yna werth sylfaenol i gymdeithas. Daliwn fod rhannu profiadau byw mewn perthynas gydag eraill o fewn yr un ardal, o fewn yr un gymuned, o fewn fframwaith yr un profiadau diwylliannol, yn dod ag ystyr ac arwyddocâd gwerthfawr i fywyd.

Daliwn hefyd fod yna werth gwaelodol i'r ymchwil am ystyr hwnnw. Dyna, o bosibl, graidd a diben gweithgaredd dynol. Dyna'r daith rydym i gyd yn ei cherdded. Efallai ein bod yn dechrau a diweddu'r daith honno ar ein pennau ein hunain ond ni chawn hyd i ystyron arwyddocaol heb ein bod yn cyd-ymdeithio gydag eraill ar y daith ymchwilgar honno.

Daliwn, felly, fod yna werth i hunanddatblygiad ac mai un o swyddogaethau sylfaenol celfyddyd yn y gymuned yw hyrwyddo a hwyluso'r broses addysgol honno. Rhaid nodi'n syth nad addysg sy'n cyflwyno gwirioneddau tybiedig mewn modd tadogol neu nawddoglyd a olygwn yma ond arferion addysgol sy'n ymrymuso pobl (a ninnau, ysgogwyr, yn eu plith) i holi'r cwestiynau sylfaenol am ein bywydau ein hunain i'n hunain yn ein ffordd ein hunain. Mae hyrwyddo prosesau addysgol sy'n codi hyder, sgiliau, gallu a photensial y gymuned leol yn gymdeithasol, diwylliannol ac economaidd trwy ddulliau cyfranogol yn allweddol i arfer da.

Rydym hefyd yn dal ei fod yn hollbwysig sylweddoli mai dolenni yng nghadwyn profiad ein cymuned ydyn ni. Bu eraill o'n blaenau, daw eraill ar ein hôl. Gadawyd etifeddiaeth ieithyddol, gelfyddydol a diwylliannol unigryw i ni sydd â pherthynas â'n ddoe ac sy'n esbonio ein heddiw. Daliwn fod gwerth sylfaenol i'r etifeddiaeth honno. Ein braint ni yw cydio yn yr etifeddiaeth honno a'i defnyddio i ddiffinio profiadau cyfoes ein cymuned o'r newydd, gan osod ein dolenni arbennig ni ar y gadwyn oesol.

Mewn oes o fydeangoli ar gyfalaf a chyfryngau torfol daliwn hefyd fod yna werth i'r weledigaeth leol, gwerth i weledigaeth pobl sy'n rhannu profiadau bywyd cyffredin o fewn yr un gymuned. Gwerth am eu bod yn brofiadau cymdeithasol sy'n deillio o ryngberthynas wyneb yn wyneb, calon wrth galon, ond hefyd oherwydd mai'r weledigaeth leol yn nhermau diwylliannau llai y byd sy'n cyfrif am amrywiaeth y profiad dynol. Yn oes y 'Global Village' dywed Nettle a Romaine wrth iddyn nhw eiriol ar ran y miloedd o ieithoedd a diwylliannau yn y byd sydd dan gysgod eu tranc,

> *"It has been said that bilingualism cannot be shoved down people's throats. Neither should monolingulaism, either by fiat or by benign neglect… our global village must be truly multicultural and multilingual or it will not exist at all."*[18]

Ond, fel nodwyd eisoes, nid piclo diwylliant yng nghostrel traddodiad yw ein bwriad. Rhaid derbyn nad oes yna ddim mor sicr â newid. Rhaid cydnabod hynny. Yn wir, ymhellach, mae dyletswydd arnom i ysgogi newid. Dyna'r unig ffordd y mae diwylliannau yn goroesi. Daliwn mai un o swyddogaethau'r artist creadigol yw ail ddiffinio profiadau oesol o'r newydd, herio rhagdybiaethau, mynnu holi hen gwestiynau ond mynnu atebion newydd. Mae yna gyfrifoldeb ar weithredwyr celfyddydol yn y gymuned i fabwysiadu'r un swyddogaeth. Tra'n parchu cyfryngau celfyddydol traddodiadol, daliwn, o fewn y cyd-destun dau ddiwylliannol presennol, y chwyldro technolegol cyfredol a lledaeniad y diwylliant torfol Eingl-Americanaidd, fod cyfrifoldeb arnom i hyrwyddo synthesis parhaus o gyfryngau a ffurfiau celfyddydol er diogelu a datblygu'r profiad diwylliannol Cymraeg i'r dyfodol.

Yn gryno iawn, felly, y math o weithgaredd celfyddydol sy'n ein diddori yw celfyddyd gymdeithasol, addysgol, gyfranogol, sydd wedi ei chanoli ar y lleol, sy'n dwyn ysbrydoliaeth o'r traddodiad ond sy'n cofleidio cyfryngau a ffurfiau newydd er mwyn ysgogi newid parhaus.

I ddarlunio'r cysyniad ymhellach gallwn gyfosod dau fodel o gynhyrchu celfyddydol (a diwylliannol) gwrthgyferbyniol. Mae'r naill golofn yn disgrifio'r gelfyddyd ddeinamig a byw y credwn y dylai fod yn sail i weithredu celfyddydol o fewn ein cymunedau. Mae'r ail fodel yn amlinellu'r hyn a ddisgrifiwn fel celfyddyd statig a llethol ei ddylanwad. Yn anffodus, gellir adnabod yr ail fath o gelfyddyd statig yn amlwg ddigon mewn canolfannau i'r celfyddydau, eisteddfodau, prosiectau *community arts* a sefydliadau celf ar hyd a lled y wlad.

Celfyddyd ddeinamig	**Celfyddyd statig**
Amrywiol	Unffurf
Newid dros amser	Digyfnewid
Cymhleth	'Syml' Poblogaidd/Rhwydd
Cyfnewidiol	Gwrthod newid
Derbyn syniadau newydd	Gwrthod syniadau
Meddiannu cyfryngau	Dal wrth yr hen ffurfiau
Cynhenid/Lleol	Cyffredinol - 'perthyn i bawb'
Creadigol	Lladd creadigrwydd
Tyfu o rannu profiadau	Profiadau unigolyddol
Cyfranogol	Goddefol
Ennyn cyfrifoldeb dros greu	Tadogol
Traddodiad byw esblygol	Canon sefydlog
'Gwerinol'	Clasurol
Heriol	Cyfforddus a saff
Holi cwestiynau	Cymryd yn ganiataol

Daliwn mai arddel dulliau'r gelfyddyd ddeinamig yw swyddogaeth a dyletswydd pawb sy'n gweithredu'n gelfyddydol neu'n ddiwylliannol o fewn a chyda ein cymunedau Cymraeg.

3.2 Egwyddorion gweithredu gyda'r gymuned

Diben y trywydd uchod oedd dod â ni i sefyllfa lle y gallwn ddeall yn well ein harferion proffesiynol fel hwyluswyr celfyddydol a diwylliannol o fewn ein cymunedau. Nodwyd eisoes nifer o'r gwerthoedd craidd sy'n llywio'r arferion hynny. Sut, felly, mae'r gwerthoedd hynny yn amlygu eu hunain yn ein gwaith ymarferol? Beth yw'r canllawiau gweithredol ar gyfer sicrhau fod y gwerthoedd hynny yn cael mynegiant yn ein hymwneud â phobl?

Dadleuwn fod yna bedair prif egwyddor sylfaenol y dylem gymryd ystyriaeth ohonyn nhw wrth weithredu o fewn ein cymunedau:

- y dylid parchu pobl, yn unigolion a grwpiau, gan gydnabod eu profiad unigryw;
- y dylid ennyn ac annog cyfranogaeth y gymuned gyfan ym mhob agwedd ar y gwaith;
- y dylid cydnabod mai hyrwyddo prosesau addysgol yw craidd ein methodoleg; ac
- y dylid bob amser sicrhau perthnasedd y gwaith i fywyd y gymuned o ran themâu, cynnwys, cyfryngau a mynegiant.

Edrychwn yn fanylach isod ar y pedair agwedd yn eu tro.

3.2.1 Parchu pobl

Wrth weithio yn y gymuned rydym yn gweithio, yn amlwg ddigon, gyda phobl. Ond nid mater syml o gydweithio, cydweithredu a rhannu tasgau ar y cyd ag eraill i gyflawni nod yw hi. Ydy, mae'r cydymdrech a'r cyd-ddyheu hynny yn rhan sylfaenol a sylweddol o'r broses wrth reswm. Ond mae gan yr unigolion hynny y cydweithiwn â nhw swyddogaeth lawer mwy arwyddocaol yn y gwaith na rôl oddefol fel cydweithwyr ymarferol yn unig. Yn wir, mae gan y bobl hynny ran gwbl greiddiol mewn rhoi celfyddyd ddeinamig ar waith. Y bobl y byddwn ni'n gweithio gyda nhw yw dechreubwynt a chanolbwynt y gwaith dan sylw. Os gwnawn ein gwaith yn llwyddiannus, o'r cydweithwyr hynny y daw'r ysbrydoliaeth i'r darn o waith, ohonyn nhw y daw'r deunydd crai, ohonyn nhw y daw'r mynegiant iddo, ohonyn nhw y daw'r cynnyrch, ohonyn nhw y daw'r creu.

Mae cydnabod y rôl greadigol ganolog hon sydd gan gyfranogwyr o blith y gymuned yn egwyddor gwbl sylfaenol. O'r herwydd, mae cydnabod a pharchu'r unigolyn a'i brofiadau a'i gyfraniadau unigryw hefyd yn gwbl allweddol. Mae gennym oll ein gwerthoedd, ein daliadau, ein cryfderau a'n gwendidau. Mae gennym oll ein mewnwelediad unigryw i brofiadau bywyd a'n dadansoddiad personol ohonyn nhw. Os ydym i weithio'n llwyddiannus gydag unigolion yn y gymuned rhaid yw inni gydnabod a pharchu'r amrywiaeth cyfoethog hynny. Rhaid parchu pobl am yr hyn ydyn nhw a'u parchu am yr hyn sydd ganddyn nhw i'w gyfrannu i'r broses greadigol yn eu ffordd unigryw eu hunain.

Taith yw pob proses greadigol a thaith ddirgel yn aml. Wrth afael yn llyw'r llong gelfyddydol a chynnig arwain eraill ar hyd y daith honno mae'n rhaid wrth ddogn cryf o ymddiriedaeth. Rhaid i'r ymddiriedaeth honno lifo'r ddwy ffordd. Nid yn unig mae'n rhaid i'r cyfranogwyr gael hyder a ffydd eich bod chi fel hwylusydd yn abl i lywio'r llong i harbwr diogel yn y pendraw ond mae'n rhaid i'r capten hefyd cael ymddiriedaeth lwyr yn ei griw. Rhaid iddo fedru ymddiried fod y fflach greadigol honno sydd ym mhob un ohonom yn mynd i gynnau'n fflam ac y byddwn yn medru gweld ein ffordd yn glir i hwylio ymlaen yn ei llewyrch gyda'n gilydd hyd derfyn y daith.

Wrth weithredu yn ein cymunedau mae'r profiad a gawn nid yn unig yn un amrywiol ar lefel bersonol ond hefyd, yn gynyddol, yn un amlddiwylliannol. Rhaid i ni, hwyluswyr diwylliannol - o ba bynnag ddiwylliant y deilliwn ohono ein hunain - ddeall, cydnabod ac ymateb i hynny. Rhaid inni sicrhau elfen o empathi gyda'r cyfranogwyr ar lefel bersonol a diwylliannol er mwyn ysgogi eu cyfranogiad lawnaf yn y broses greadigol. Wrth ddod at y gwaith o gefndir diwylliannol Cymraeg a chyda'r bwriad agored i gyfrannu ymhellach at

weithgareddau'r diwylliant hwnnw, rhaid cydnabod hefyd ddiffyg perthynas posibl rhai unigolion gyda'r diwylliant a'r traddodiad Cymraeg. At hynny, weithiau, nid oes gan rhai unigolion, oherwydd amgylchiadau personol neu anawsterau dysgu, berthynas lawn gyda'r gymuned o'u cwmpas o ba bynnag ddiwylliant y dônt. Rhaid i hwylusydd cymunedol fod yn effro i'r amrywiaethau hyn mewn ymwneud cymdeithasol a diwylliannol unigolion a rhaid gweithio'n ofalus a sensitif i gynnwys pawb yn y broses o greu.

Mae arddel agwedd gynhwysol o'r fath yn egwyddor sylfaenol bwysig. Nid creu gweithgaredd i griw dethol o siaradwyr Cymraeg, cadarn eu hymlyniad i'r traddodiad, yw'r nod yma ond cynnal gwaith cymunedol cynhwysol sydd, er yn arddel y Gymraeg a'i diwylliant yn gwbl gadarn, er â bwriad agored i gyfrannu ymhellach at y traddodiad hwnnw, sydd hefyd yn agored i dderbyn cyfraniadau gan bawb, pwy bynnag ydyn nhw ac o ba le bynnag y dônt. Daliwn fod yn rhaid i weithgareddau celfyddydol Cymraeg feithrin yr hyder i ymestyn allan a chofleidio profiadau a mynegiannau newydd sy'n cael eu cynnig gan yr unigolion amrywiol hynny sy'n dewis cyfrannu iddyn nhw. Rhaid cadw drysau ein gweithgareddau Cymraeg yn llydan agored gan hwyluso mynediad i bawb sy'n dewis cyfrannu.

Parchu pobl, hwyluso mynediad agored, cynnig a chynnal cyfleoedd i ddewis cyfrannu i bawb - dyna'r canllawiau. Rhaid i bawb gael cyfle cyfartal i gyfrannu i'r diwylliant deinamig Cymraeg.

3.2.2 Ennyn cyfranogaeth

Nid yn unig y mae'n rhaid inni arddel egwyddorion ac arferion cyfle cyfartal wrth fynd ynghyd â'n gwaith ond mae'n rhaid i ni hefyd weithredu'n rhagweithiol er mwyn ennyn cyfranogaeth y gymuned yn y gwaith hwnnw.

Nid pawb o fewn y gymuned fydd yn teimlo eu bod eisiau nac yn medru cyfrannu i'r gwaith. Mae gan bawb ohonom ragfarnau am ein galluoedd a'n diddordebau ein hunain yn hyn o beth. Efallai eu bod yn teimlo fod y cyfryngau celfyddydol bwriedig yn ddieithr neu'n amherthnasol iddyn nhw. Mae diffyg profiad a diffyg hyder yn ffactorau cyffredin. Gall fod llawer o aelodau'r gymuned yn rhagdybio mai'r unig ffordd iddyn nhw gyfrannu i'r prosiect fyddai trwy berfformio neu weithredu'n artistig mewn modd uniongyrchol a bod hynny ddim at eu dant. Rhaid cydnabod y ffactorau hyn oll a mwy a cheisio ffyrdd mor hyblyg â phosibl i sicrhau cyfranogiad y nifer ehangaf o gyfranogwyr. Un o brif swyddogaethau'r hwylusydd yw canfod ystod o ffyrdd y gallai'r gymuned gyfrannu at y prosiect - cyfrannu gwybodaeth leol, cyfrannu profiadau, cyfrannu dyheadau, cyfrannu lluniau a dogfennau teuluol a lleol, defnyddio crefftau lleol i greu cynnyrch atodol at y prosiect canolog, benthyg offer a dodrefn ac, wrth gwrs, ymuno yn y gynulleidfa i werthfawrogi'r cynnyrch terfynol. Mae llu o wahanol ffyrdd y gall cymuned gyfrannu at brosiect creadigol cymunedol heb roi paent ar frws neu droed ar lwyfan eu hunain. Mae'n ddyletswydd ar yr hwylusydd i agor y posibiliadau a'r cyfleoedd hynny i gynifer o gyfranogwyr â phosibl.

I sefydlu grŵp o gyfranogwyr rhaid yn gyntaf yw medru recriwtio cyfranogwyr o fewn rhwydweithiau lleol a thrwy gyfryngau lleol. Fel nodwyd uchod, mae gan ymddiriedaeth ran ganolog yn y berthynas greadigol rhwng hwylusydd a chymuned. Mae gan ymddiriedaeth ran allweddol hefyd yn y broses honno o ddenu, darganfod a

pherswadio'r gymuned i gyfranogi mewn prosiectau creadigol. I adeiladu'r ymddiriedaeth honno un hanfod yw caffael adnabyddiaeth dda o'r gymuned ei hun. Daw'r adnabyddiaeth honno'n bennaf o fedru arddel empathi gyda'r gymuned ac o ennill dealltwriaeth lawn o'r cyfryngau a'r strwythurau diwylliannol sy'n ei gyrru. Nid ar chwarae bach y daw'r fath ddealltwriaeth. Daw o ymwneud cyson a pharhaus â'r gymuned honno. Daw o adnabod y gymuned. Daw o gael eich derbyn gan y gymuned. Daw o fod yn aelod o'r gymuned. Afraid dweud yma efallai, ond mae'n syndod sawl corff sydd heb sylweddoli'r gwirionedd syml, er mwyn medru dod yn aelod llawn o'r gymuned honno rhaid yw medru siarad ei hiaith.

O lwyddo i ddenu a sefydlu grŵp o gyfranogwyr craidd rhaid yna sicrhau fod pawb o fewn y grŵp yn cael cyfle i fynegi eu hunain a sicrhau eu bod yn medru cyfathrebu'n rhwydd ac yn agored â phawb arall o fewn y grŵp. Mae'r gwaith grŵp cychwynnol yma yn allweddol i lwyddiant y prosiect. Rhaid buddsoddi'n hael yn y grŵp ei hun er mwyn adeiladu ei ymddiriedaeth, ei ymdeimlad o berthyn a'i hunaniaeth unedig. Rhaid chwalu pryderon a goresgyn rhwystrau rhwng unigolion, gan adeiladu tir cyffredin y gall pawb deimlo'n gysurus yn ei droedio. Mae creu grŵp effeithiol yn broses greadigol yn ei hun. Yn fyr, cyn medru creu rhaid yw troi'r grŵp yn gymdeithas. Rhaid ysgogi'r awydd ynddyn nhw i gyd-deithio.

O wneud hynny, rhaid wedyn sicrhau bod y grŵp yn cyfrannu at y broses greadigol dan sylw a chyfrannu iddi'n barhaus. Rhaid iddyn nhw ddeall nad swyddogaeth oddefol sydd ganddyn nhw yn y broses greadigol yma ond mai nhw eu hunain sy'n gyfrifol am y creu. Mae eu rôl mor greiddiol â hynny. Heb eu cyfranogaeth lawn ni fydd cynnyrch gwerth sôn amdano. Rhaid i'r hwylusydd fynnu'r gyfranogaeth ragweithiol yna gan bawb yn y grŵp gydol y broses. Rhaid ennyn perchnogaeth aelodau'r grŵp dros y broses a meithrin cyfrifoldeb dros weithredoedd unigol a thorfol. Dim ond hynny all ryddhau'r egni creadigol angenrheidiol i gynhyrchu cynnyrch o unrhyw arwyddocâd. Hynny sy'n ymrymuso.

O sicrhau cyfranogaeth lawn mae cwrs y daith wedyn wedi ei gosod. Swyddogaeth yr hwylusydd o hynny ymlaen yw ysgogi mynegiant, annog creadigrwydd, cefnogi'r cyfranogwyr a mireinio'r cynnyrch. Mae terfyn y daith, i raddau helaeth, erbyn hynny y tu hwnt i'w reolaeth - mae deinameg creadigrwydd cymunedol wedi ei ryddhau.

3.2.3 Hyrwyddo prosesau addysgol

Elfen ganolog ym methodoleg ein gwaith yw'r ddealltwriaeth mai ymhél â phrosesau addysgol ydyn ni yn ei hanfod. Nid sôn ydym am addysg yn yr ystyr sefydliadol, didactig a thadogol arferol ond am addysg anffurfiol, addysg alluogol a hunan-ddatblygol sy'n deilio o ymwneud â chydweithio ag eraill o fewn cymdeithas greadigol.

Rhaid cydnabod fod yna berthynas agos rhwng gweithredu'n ddiwylliannol o fewn y gymuned â mathau eraill o weithredu cymunedol - addysg gymunedol, gwaith ieuenctid a chymuned, datblygu cymunedol a gwaith cymdeithasol rhagweithiol. Er enghraifft, byddai pedair egwyddor craidd y Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (CGIC) yn eistedd yn gyfforddus iawn ochr yn ochr â'n gweledigaeth ni'n hunain ynglŷn â natur ein gwaith. Dywed y CGIC fod yn rhaid i waith ieuenctid effeithiol fod yn addysgol, yn alluogol, yn gyfranogol ac yn fynegiannol. Gan fod pobl ifanc yn aml yn chwarae rhan amlwg mewn prosiectau celfyddydol lleol mae ymwybyddiaeth o'r ddisgyblaeth

gyfochrog honno yn un ddefnyddiol a gwerthfawr. Fodd bynnag, nid pobl ifanc yw ein hunig gynulleidfa o fewn y gymuned. Mae lle i bawb o bob cenhedlaeth wrth greu celfyddyd ddeinamig. Gyda'r pwyslais cynyddol ar addysg gydol oes, datblygu cymunedol a datblygu economaidd lleol credwn fod lle arbennig i hyrwyddo cryn dipyn ar weithredu celfyddyd ddeinamig ar lefel gymunedol er mwyn rhyddhau potensial y gymuned ar sawl lefel ac mewn sawl maes.

Fel nodwyd yn flaenorol yn y ddogfen hon, un o nodweddion cyffredin cymunedau sydd wedi eu gwladychu ac sydd wedi profi canrifoedd o ormes economaidd a diwylliannol yw diffyg hyder, diffyg menter a diffyg ymwneud gwleidyddol ac economaidd. Mae gan gelfyddyd ddeinamig le canolog i'w chwarae wrth ddygymod â'r sefyllfa honno gan ddatblygu a gwireddu potensial creadigol y gymuned. O gael ei chau allan o bob pau gymdeithasol rymus ers canrifoedd onid y pau celfyddydol (ynghyd â chrefydd Anghydffurfiol a rhwydweithiau teulu a bro) sydd wedi cynnal y Gymraeg cyhyd? Onid dyna arwyddocâd y bardd yn narlun R.R. Davies o Gymru'r Canol Oesoedd? Mae grym a photensial celfyddyd ddeinamig yn anferth. Gall y prosesau addysgol yr ydym yn eu harddel a'u harfer godi disgwyliadau ac uchelgais; gallan nhw ennyn balchder, hunanhyder a hunan werth; gallan nhw wneud yr anobeithiol yn obeithiol a'r amhosibl yn realiti. Dylai gweithredu celfyddyd ddeinamig sicrhau fod datblygu sgiliau, ymestyn galluoedd, darganfod gwybodaeth newydd a herio agweddau yn rhan ganolog o'r fethodoleg greadigol. Dyma rym canolog ein gwaith. Grym ein hetifeddiaeth.

Gallwn gynnig sawl enghraifft o'r fethodoleg addysgol yma ar waith. Efallai y cyhoeddir cydymaith enghreifftiol i'r truth hwn maes o law. Fodd bynnag, am y tro, cyfyngwn ein hunain i un enghraifft glodwiw. Opera sebon yw Bont-lwyd a ddarlledir yn ddyddiol ar Radio Ceredigion. Ceir darllediad pum munud tair gwaith y dydd a rhifyn cyfansawdd pob bore dydd Sul. Yr hyn sy'n rhyfeddol am Bont-lwyd yw, ar wahân i ychydig amser technegol a gweinyddol staff cyflogedig Theatr Felin-fach, mai ymdrech wirfoddol y gymuned sy'n cynhyrchu'r rhaglen. Cyfranogwyr o'r gymuned sy'n gyfrifol am bob agwedd o'r gwaith - llunio straeon, creu golygfeydd, llunio'r ddeialog, ei actio, ei gyfarwyddo a'i recordio. Mae dros 50 o drigolion canolbarth Ceredigion wrthi'n cynhyrchu deunydd creadigol sylweddol ac arwyddocaol dan fantell Bont-lwyd a hynny'n wythnosol ers dros 10 mlynedd.

Partneriaeth yw Bont-lwyd ac mae'n bartneriaeth arwyddocaol yng nghyswllt y fethodoleg addysgol a nodir uchod a photensial cymdeithasol arddel celfyddyd ddeinamig. Partneriaeth yw Bont-lwyd rhwng corff datblygu menter economaidd (Menter a Busnes), canolfan addysg gymunedol (Theatr Felin-fach), menter fasnachol (Radio Ceredigion) ac, yn greiddiol, rhwydwaith o siaradwyr Cymraeg o blith cymunedau Dyffryn Aeron a'r fro. Rhan o fwriad y prosiect a rhan o'r canlyniadau amlwg bellach yw bod Bont-lwyd nid yn unig yn llwyddo mewn termau artistig ac mewn termau darlledu ond hefyd ei bod yn llwyddo i fod yn llwyfan i ysgogi nifer fawr o weithgareddau cymdeithasol ac economaidd eraill yn ei sgil. Mae'r negeseuon y mae'r straeon yn y eu cario a'r trafodaethau y maen nhw'n ysgogi o fewn y gymdeithas ynghyd â'r sgiliau, gwybodaeth a'r hyder a enillir gan y cyfranogwyr yn sicrhau fod Bont-lwyd yn furum cymdeithasol pwerus sy'n medru deillio ar ganlyniadau ehangach na'i nod artistig yn unig. Mae'r un yn wir am nifer o gynyrchiadau cymunedol eraill Radio Ceredigion dros y blynyddoedd diwethaf. Burum sydd bellach yn prysur wanhau dan ymosodiadau Philistaidd a byr llygeidiog y BBC a North Wales Newspapers. Fel dywedodd Euros Lewis yn ddiweddar yn y cylchgrawn Barn,

DYFYNIAD GAN EUROS[19]

Fodd bynnag, mae Bont-lwyd yn enghraifft ddiddorol am reswm arall hefyd, sef y cyfrwng y mae'n gweithio drwyddi. Doedd neb wedi cynnal y posibilrwydd fod modd creu opera sebon Cymraeg ar y radio cyn dyfodiad Bont-lwyd. Roedd yr amheuon yn hyglyw: doedd hynny ddim yn bosibl o fewn y diwylliant Cymraeg; doedd e ddim yn rhan o'n traddodiad ni; doedd gennym ni ddim yr adnoddau at ein gwasanaeth. Yn hynny o beth mae Bont-lwyd wedi arloesi. Cofleidiwyd y cyfrwng. Daeth yr amhosibl yn realiti. Bellach mae Radio Cymru wedi dilyn yr hyd yr un llwybr gan ddarlledu o leiaf 2 opera sebon ac yn ddiweddar mae yna ddrama gyfres wedi cael ei darlledu hefyd.

Mae proses addysgol llwyddiannus yn medru ehangu gorwelion, a hynny mewn sawl ystyr. Gall ehangu profiadau a chanfyddiadau unigolion, gall ehangu posibiliadau unigol a chymunedol. Mae ehangu gorwelion yng nghyd-destun pa gyfryngau y gellid eu defnyddio hefyd yn rhan o'r eangfrydedd hynny. Fel nodwyd eisoes, rhaid i gelfyddyd ddeinamig yn y gymuned ddefnyddio unrhyw gyfrwng a phob cyfrwng addas at y gwaith - y traddodiadol a'r newydd, y technegau clasurol a'r technolegau diweddaraf. Rhaid creu celfyddyd ddeinamig Gymraeg sy'n gyfforddus wrth fynegi ei hun trwy unrhyw gyfrwng posibl.

Mae'n rhaid i gelfyddyd ddeinamig fod yn eangfrydig. Yn eangfrydig o ran cynnwys cyfranogwyr, o ran y bwriadau addysgol, o ran y cyfryngau posibl ond hefyd o ran cynnwys y gwaith ei hun. Craidd y broses addysgol yw holi cwestiynau. Holi cwestiynau sylfaenol am ein hunain, am y gymuned, am ein gwlad, am y byd o'n cwmpas. Mae'r cwestiynau sydd angen eu holi yn aml yn rhai anodd, yn aml yn rhai poenus, yn aml yn gwestiynau y mae'n haws eu hosgoi. Ond eu holi sydd raid. Rhaid herio'n hunain i'w holi, herio'r grŵp i'w holi, herio'r gymuned i'w holi. A rhaid mynnu atebion. O geisio canfod yr atebion yn unig y daw'r creu.

Mae'n hawdd iawn gan rai o ddoethion ein sefydliadau celf i feddwl am gelfyddyd yn y gymuned fel rhywbeth arwynebol a saff. Mae llawer ohonyn nhw'n tueddu i ymagweddu'n dadogol os nad yn nawddoglyd at y gymuned leol heb ddal gobeithion na disgwyliadau uchel am unrhyw gynnyrch aeddfed nac arwyddocaol o werth. Rhaid datgan nad mater o greu adloniant hawdd i'r gymuned i'w mwynhau yw amcan gweithredu celfyddyd ddeinamig ond, fel gyda phob celfyddyd arwyddocaol, mater ydyw o geisio dod at adnabyddiaeth a dealltwriaeth well o'r cyflwr dynol. Rhan amlaf, wrth weithredu celfyddyd ddeinamig ceisir canfod hynny ym mhrofiadau'r gymuned ei hun. Mae hynny'n gofyn am hunan fyfyrio, am droi drych at ein sefyllfa ac am geisio gwneud synnwyr o brofiadau amrywiol y gymuned. Mae'n galw am ddadansoddiad a mynegiant aeddfed o'r darlun. Dyw gweithredu yn y gymuned ddim yn golygu glastwreiddio gwerthoedd artistig. Yn wir, mae rhaid inni gynnal y gwerthoedd artistig uchaf os am lwyddo i lywio'r broses i ganlyniad effeithiol.

Serch y ffocws ar y gymuned, rhaid nodi nad proses gul a phlwyfol yw hynny. Mae'r cwestiynau y dylid eu holi yn gwestiynau sylfaenol - yn bersonol, cymdeithasol a gwleidyddol. Maen nhw'n gwestiynau oesol. Ac mae'r oesol i'w ganfod yn y lleol ymhobman dim ond i ni fod mor ddewr ag edrych amdano.

3.2.4 Sicrhau perthnasedd

Yn olaf, y bedwaredd egwyddor weithredol, dylid sicrhau perthnasedd y gwaith i'r gymuned gyfranogol. Gall rhai dybio fod yna baradocs yn y fan yma. Ar y naill law rydym yn hawlio ein bod ynglŷn â herio'r gymuned, ynglŷn ag agor posibiliadau newydd, cynnig cyfleoedd newydd, ehangu gorwelion, gwneud cysylltiadau â phrofiadau cymunedau ac unigolion eraill. Ar y llaw arall honnwn ei bod yn bwysig fod ysbrydoliaeth y gwaith, y rheswm dros y gwaith, yn deillio o brofiadau'r gymuned ei hun.

Rhaid, fodd bynnag, i'r gwaith fod yn berthnasol i'r gymuned o ran themâu a chynnwys. Gall fod yn ymateb i argyfwng cymdeithasol neu economaidd, gall fod yn fynegiant personol ardalwyr o'u profiadau byw, gall fod yn dwyn ystyr o chwedlau a hanes lleol, gall adlewyrchu tensiynau o fewn y gymuned, gall fod yn fynegiant o ddyheadau. Gall y perthnasedd gael ei fynegi mewn llawer modd ac ar lawer lefel. Ond nid paradocs sydd rhwng y broses a'r cynnwys rhagor na deuoliaeth ddeinamig. Rhaid wrth y broses eangfrydig, gynhwysol a heriol i greu'r drych sydd ei angen ar y gymuned i holi'r cwestiynau allweddol. Yn ei dro, mae'r broses o holi hynny, yn ei hun, yn sicrhau perthnasedd. Mae'r drych hefyd, gobeithio, yn hawlio gonestrwydd a mynegiant diffuant - nodweddion craidd eraill sy'n sicrhau fod y cynnyrch yn berthnasol i'r cyfranogwyr a'r gynulleidfa fel ei gilydd.

Ceir deuoliaeth ddeinamig hefyd, yn aml, wrth ystyried pa gyfryngau celfyddydol a pha foddau diwylliannol i'w defnyddio. Gall y ddeuoliaeth hynny fod yn gyffrous ac egnïol yn eu hunain. Soniwyd eisoes am bwysigrwydd cofleidio pob cyfrwng sydd wrth law i hwyluso'r creu. Fodd bynnag, daliwn fod gwerth sylfaenol mewn priodi cyfryngau newydd ac anghyfarwydd â moddau diwylliannol traddodiadol sy'n gyfarwydd i'r gymuned. Neu, fel arall, gosod cyfryngau traddodiadol mewn cyd-destunau a lleoliadau anghyfarwydd a newydd. Mae hynny yn ei hun yn fodd i sicrhau mynediad corfforol a chysyniadol i'r gwaith, yn ehangu gorwelion posibiliadau ac yn gosod her ddiwylliannol i'r cyfranogwyr a'r gynulleidfa. Mae enghreifftiau o weithredu o'r fath yn niferus - o waith anturus Brith Gof ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol, i berfformiadau theatrig cyfoes mewn cymanfaoedd canu lleol, o beintio cynghanedd, i ddawnsio barddoniaeth Waldo. Yn aml, pan mae'r broses o greu yn synthesis llwyddiannus rhwng y traddodiadol a'r cyfoes, yr hen a'r newydd, y lleol a'r rhyngwladol o ran profiadau, mynegiant, cyfrwng a chyd-destun diwylliannol mae yna gelfyddyd wirioneddol ddeinamig ar waith sy'n medru cyfrannu'n gyfoethog iawn at fywyd diwylliannol y gymuned leol.

I gloi, wrth sicrhau perthnasedd lleol, mae yna un hanfod na ddylwn ei chymryd yn ysgafn - rhaid sicrhau fod y gwaith, yn broses a chynnyrch, yn ddifyr, yn ddiddorol ac yn ddeniadol. Tasg anodd yn aml yw denu cyfranogwyr i gymryd rhan. I wneud hynny yn llwyddiannus rhaid bod yn effro i'r hyn sy'n eu cyffroi, i'r hyn sy'n taro tant, i'r hyn tanio eu dychymyg - pa gyfrwng bynnag fo hynny. O adnabod y gymuned, rhaid apelio'n ddiedifar at eu chwaeth a'u dyheadau adloniadol. Wedi'r cwbl, mae'n rhaid i gelfyddyd ddeinamig fod yn sbort neu ba flas byw?!

4.0 Beth yw'r canlyniad? Beth yw'n bwriad?

Pa ddiben i hyn oll? Beth sydd i'w ennill? Pa werth i arddel ac arfer celfyddyd ddeinamig ar lefel gymunedol? Yn syml, gan ein bod o'r farn fod iddi ran ganolog yng nghynhaliaeth y gymuned honno. Yn fwy penodol, fod iddo'r potensial gwirioneddol i gyfrannu'n gadarnhaol ac yn sylweddol at hyfywedd ein cymunedau Cymraeg; bod iddi le mewn

creu Cymru newydd. Yn nyddiau bydeangoli gall ymrymuso'r lleol. Yn y Brydain Saesneg barhaus gall gynorthwyo i wneud yr Anweledig yn weledig. Yn ein bywydau beunyddiol gall fynegi ein dyheadau, gall wireddu'n breuddwydion, gall ddweud ein straeon gyda'n llais ein hunain. Gall ein gwreiddio, gall ein herio, gall ein symbylu i gyd-ymdeithio ymlaen.

Soniwyd uchod am y modd y mae'n rhaid i'r grŏp o gyfranogwyr celfyddydol, os ydyn nhw am ddechrau creu, lwyddo i lunio eu hunain yn gymdeithas greadigol. Daliwn fod y deinamig creadigol hwnnw yn meddu ar y potensial i atseinio drwy'r gymdeithas a'r gymuned ehangach. Mae i gelfyddyd ddeinamig y potensial i fod yn ffynhonnell egni, brwdfrydedd a gweledigaeth; yn ffynnon i sgiliau a gwybodaeth, menter a hyder. Daliwn mai celfyddyd ddeinamig, yw tarddle anian y gymuned hyfyw - yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol ac yn ysbrydol. Nid ar ddamwain yr adnabyddir rhai ardaloedd o Gymru fel cadarnleoedd diwylliannol - gellir sôn, er enghraifft, am ardal y Preseli, Penllyn, Uwch Aled a Dyffryn Aeron. Beth yw eu cyfrinach? Nid cyd-ddigwyddiad yw eu bod yn llefydd lle mae yna ysgogwyr diwylliannol lleol wedi bod wrthi'n ddistaw ddiwyd ers blynyddoedd, ysgogwyr diwylliannol sy'n deall yn union beth yw gwir botensial hyrwyddo celfyddyd ddeinamig - yn addysgol, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Celf er mwyn pobl.

Os mai proses greadigol ac ymrymusol ar lefel gymunedol yw arfer celfyddyd ddeinamig, felly, beth yw'r cynnyrch? Yn fyr, i gloi, beth am restru rhai o'r canlyniadau posibl:

- Rhwydwaith o gyfranogwyr creadigol a mentrus
- Hunan adnabyddiaeth gymunedol
- Cynnydd mewn ymwneud cymdeithasol
- Ymdeimlad o ymrymuso personol a chymdeithasol
- Ehangu gorwelion posibiliadau unigol a chymunedol
- Agor llwybrau newydd i wireddu potensial
- Enillion cymdeithasol ac economaidd
- Mynegiant diddorol a difyr o brofiadau oesol y gymuned
- Cyfraniad gwerthfawr i linyn arian y gymdeithas
- Parhad y gymuned Gymraeg

Yn gryno, yr hyn sydd i'w ennill yw cymuned hyfyw sy'n wynebu heriau a newidiadau'r byd cyfoes yn hyderus ar sail eu profiadau cyffredin a'u potensial eu hunain. O fewn y byd newidiol hwnnw, gyda Chymru fel y bu erioed yn gymuned o gymunedau, ar lefel genedlaethol gall hefyd feithrin a chynyddu ein gallu i chwarae rhan hyderus yn y byd fel cymuned o siaradwyr Cymraeg. Rhaid i'r rhai hynny, yn wleidyddion ac ymgyrchwyr, sy'n sôn yn gynyddol am arwyddocâd cymuned yn y Gymru gyfoes ddechrau sylweddoli grym a photensial y gweithredu diwylliannol hwn.

Ar ddechrau'r ddogfen hon dyfynnwyd Gwyn Alf Williams yn sôn fel y bu i'r Cymry greu ac ail greu eu hunain dros y canrifoedd.

> *"The Welsh as a people have lived by making and remaking themselves in generation after generation, usually against the odds, usually within a British context. Wales is an atrefact that the Welsh produce…"*

Gorffen y paragraff yna gyda'r geiriau,

"… If they want to. It requires an act of choice".

Dewiswn. Gweithredwn.

Gareth Ioan
Ebrill 2002

---

[1] Gwyn A. Wiliams, *When was Wales? A History of the Welsh*, (Penguin 1985).
[2] Daniel Nettle & Suzanne Romaine, Vanishing Voices, (Oxford University Press 2000).
[3] R. R. Davies, The Revolt of Owain Glyndwr, (oxford University Press 1995)
[4] Cyfarfod ymgynghorol ar amrywiaeth diwylliannol, Cyngor Celfyddydau Cymru, Aberystwyth, ?? Hydref 2001.
[5] Angen chwilota am darddiad hwn.
[6] Angen chilota am JR Jones.
[7] Daniel Nettle & Suzanne Romaine, Vanishing Voices, (Oxford University Press 2000).
[8] Angen chwilota am y cyhoeddiad.
[9] John Barnie, Enw'r Erthygl, yn Discovering Welshness, gol. Fiona Bowie (Gomer 19??).
[10] Eto
[11] Angen chwilota am y ddoigfen ymgynghori.
[12] Peter Lord, The Aesthetics of Relevance, (Gomer 1992)
[13] Angen gwirio hwn yn erbyn Cyfrifiad 2001.
[14] Angen dyfynnu'r cyhoeddiad hwn hefyd!
[15] Brian Street, Culture is a verb, yn ???????? (British Association of Applied Linguistics 19??)
[16] Waldo Williams, Pa Beth yw Dyn?, yn Dail Pren, (Gomer 1991)
[17] Edward Said, Culture and Imperialism, (?????)
[18] Daniel Nettle & Suzanne Romaine, Vanishing Voices, (Oxford University Press 2000).
[19] Angen canfod y dyfyniad